

**B**



✦  
**Barddas Bach y 'Dolig**  
**2022**

**O'r Dair Diraidus** £9.99  
Aled Hall gydag Alun Gibbard

**CYMRU DDOL** £19.99  
Mewn Lliw a Llun Gwyn Jenkins

**JON GOWER Y DIWEDD** £8.99

**SGEN I'M SYNIAD** £9.99  
SROD SŴL SŴL GWENILLIAN ELLIS

**BREUDDWYD ROC ARÔL?** £14.99  
Cleif Harpwood

**SHARON MORGAN** £9.99  
Actores a Mam

**CMLM** £8.99  
Ffion Emlin

*am restr gyflawn o lyfrau, ewch i*  
**ymolfa.com**

Facebook Twitter Instagram WordPress **Llyfrau dros Gymru**

## Golygyddol

Fel eiddew mae'r hen flwyddyn  
Yn dal ei gfael yn dymn,  
Ac ara' deg yr â dydd  
O aea'n flwyddyn newydd.

Os daw'r Seren eleni  
I'r Wyl, di-hwyl y daw hi;  
Ym mhig y gigfran mae hon  
A'i golau bach digalon.

Gwnawn ryw garol bach joli  
Ac awn i'w hail-gynnau hi,  
A chawn wyl dan loywach nen,  
Llewyrch Nadolig llawen.


**TM**, Trefan, Ddydd Gŵyl Tydecho, 2022

**Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Bydd rhaglen gyrsiau 2023 yn glanio ym mis Ionawr 2023 ar [www.tynewydd.cymru](http://www.tynewydd.cymru)

**l.l.l.** Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

[www.llenyddiaethcymru.org](http://www.llenyddiaethcymru.org)



The background of the entire page is a soft, warm, golden-yellow glow. In the center, the title 'SEREN!' is written in a bold, black, serif font. Below the title, four lines of Welsh text are centered. On the left side, there is a dark silhouette of a woman's head and shoulders, facing right. On the right side, there is a dark silhouette of a man's head and shoulders, facing left, with a violin and bow visible behind him.

## SEREN!

Fry uwch Ei ben rwyt eleni — eto,  
Ond os wyt o ddifri,  
Tyrd yn agos, dangos di  
Ei wyneb yn iawn inni.



Casi Wyn



Mererid Hopwood



Y Prifardd Llŷr Gwyn Lewis



Elinor Wyn Reynolds



Y Prifardd Esyllt Maelor



D. Geraint Lewis



Trafod y dyfodol efo 2 o feirdd y dyfodol!



Aneirin Karadog

# Gair o'r Gadair

Mae aelodau a gwirfoddolwyr Y Gymdeithas Gerdd Dafod, Barddas, oll yn bobol sydd wedi eu gwreiddio yn eu cymunedau, boed yn gymunedau daearol neu gymunedau sy'n gallu ymgysylltu'n rhithiol y dyddiau hyn. Nid yw Barddas felly yn byw mewn gwagle lle nad yw'r byd a'i bethau yn effeithio arnom. Bu'n flwyddyn o erchyllterau yn gynnar iawn yn 2022 gydag ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror, a gyda'r rhyfel yn dal i fynd yn ei flaen gallwn ni ddim ond dymuno gweld diwedd ar y dioddefaint a'r creulondeb a helpu mewn ffyrdd bychain, yn enwedig os down ar draws ffoaduriaid yn ein

gwlad ninnau. Ffoaduriaid o bob man. Ac o'r creisis ynni i gystadleuaeth Prifweinigdog y Mis yn y Blaid Dorïaidd, mae digon o gythrwfwl yn ein hwynebu ni oll. Yn nhymor y Nadolig, mae'n gyfle i feddwl am gyd-ddyn a rhannu gyda'r rhai sydd mewn angen os oes gennym allu i wneud hynny.

Bu hefyd yn flwyddyn o geisio dychwelyd at rai elfennau o'n bywydau cyn y pandemig; colfeidio, eisteddfota... Llynedd fe gynhaliwyd Gŵyl Gerallt dan gyfyngiadau gyda'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau'r penwythnos yn cael eu darlledu ar-lein a'r digwyddiadau eu hunain yn

cael eu cynnal yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy ac yn y pentref ei hun. Braff oedd gallu croesawu nifer cyfyngedig o bobol i Dŷ Newydd a chynnal y digwyddiad barddol cyntaf i ddigwydd wyneb yn wyneb ar ffurf Ymryson yn neuadd bentre Llanystumdwy ar y nos wener.

Eleni, bu'n bleser gallu cynnal Gŵyl Gerallt heb gyfyngiadau a hynny yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Ymryson rhwng tîm o Staff Prifysgol Aberystwyth a thîm o Gyn-fyfrwyr ar y nos Wener a Tudur Dylan yn cadw trefn. Ar y dydd Sadwrn wedyn, Llŷr Gwyn Lewis yn holi D. Geraint Lewis am ei gyfrol newydd o ddyfyniadau doeth a difyr, *Oriel y Bardd*; gweithdy barddoni i blant gyda Bardd Plant Cymru, Casi Wyn; cyflwyniad i'r gynghanedd gan Mererid Hopwood; Casi a finnau yn sgwrsio â rhai o feirdd y dyfodol;

trafodaeth am y berthynas rhwng y gair a'r llun gyda'r ffotograffydd Iestyn Hughes a Golygydd *Barddas*; sgwrs gydag enillwyr prif gystadlaethau Eisteddfod Ceredigion, Llŷr Gwyn ac Esyllt Maelor; a sgwrs gydag Elinor Wyn Reynolds am ei chyfrol newydd o gerddi. Dyna ichi wledd!

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Well!

**ANEIRIN KARADOG**, Cadeirydd Barddas



# YMRYSON GŴYL GERALLT 2022

## STAFF Y COLEG GER Y LLI:

Eurig Salisbury, Mererid Hopwood, Hywel Griffiths, Gwenallt Llwyd Ifan

V

## CYN-FYFYRWYR:

Gruffudd Antur, Enfys Hatcher, Llion Jones, Twm Morys

### Cwpled y cynnwys enw adeilad

O Rif Deg daw rhes pob Rheng:  
'Cyrrens i Kwasi Kwarteng!'

### STAFF

Na, fyth, nid anghofiaf hyn:  
Tequilla 'Mhentycelyn.

### CYN-FYFYRWYR



### Pennill telyn: Beddargraff arweinydd côr

Fe ddringodd uchelfanne'  
Yr erwydd yn y bore,  
Ond erbyn nos mae llais ei gôr  
Heb un encôr yn *grave*.

### STAFF

'Rôl cwafrau y soprano,  
Cyngherddau yn *grescendo*,  
Daeth 'rest' i'r gân — Top C? O, drat!  
Ti'n fflat; *diminuendo*.

### CYN-FYFYRWYR

### Englyn: 'Coedwig'

Drwy'r cwm diffenestr, sŵn llestri —  
pinwydd

A chwpanau'n torri  
Â glaw y nos a glywn ni;  
Dal dŵr wnâi dail y deri.

Dan undonedd llechweddi — ein bannau  
O binwydd a drysni,  
O'r dail crin daw'n hegin ni  
Yn goedwig i ail-godi.

### STAFF

Ni fûm i erioed mewn coedwig — 'yn hun  
Cyn heno; mae'n beryg.  
Yma'r Wyf yn cuddio 'mrig  
Y derw, 'cofn daw Eurig.

Trwr awel yn treio — yn y dail  
Wnaeth y don wrth gilio,  
A draw er eu hen ddistrywio,  
Dyna'r coed yn ir eu co'.

### CYN-FYFYRWYR

### Cywydd: 'Pen-blwydd'

Cynullwch y canhwyllau  
Ar gacen uwchben y bae!  
Cant pum deg i'r coleg hwn,  
Oes oesoedd dref y sesiwn,  
Ciciwn y bar, cleciwn beint,  
A chwffio wedi chwepheint!  
Ond dywedwn yn deidi,  
Cacen Hugh Owen yw hi,  
Sgleinio mae'r canhwyllau hir  
Yn Olau, ynddynt gwelir  
Cant a hanner y Werin,  
Yn barhad i'r geiniog brin.

### STAFF

Mae eleni ddeng mlynedd  
A mwy ers y parti medd  
Yn Aber, minnau'n ebol  
Sychedig, ffyrnig o ffôl.  
Lager, jest fel y Werin,  
Snakebite ac Olbreit a gwin;  
Caed yno sawl Jac Daniels  
Ar ôl wyth o *real ales*,  
Ac ugeiniau o Guinness;  
Wedyn trio popio 'E's,  
A fyth nid anghofiaf hyn:  
Tequilla 'Mhantycelyn.

### CYN-FYFYRWYR

# 'Leni

Er bod seren y geni yma'n ôl,  
mae 'na wyll eleni'n  
duo'r Wyl, holl boen di-ri  
Gwyl o waed, o galedi.


Dwysáu wna creithiau Wcráin, ar gynnydd  
mae'r gynnu fel Plygain  
Gwyl afiach, ag wylofain  
hyd yr hwyr o frics a drain.

At hynny, tlodi tanwydd o ofid  
sy'n brifo, a'i gystudd  
ara' deg dry arlwy'r dydd  
yn boenus, denau beunydd.

O'r dioddef, ciliaf hefyd, y dianc  
di-wewyr yw'r delfryd,  
cofio am groeso, am grud,  
am obaith Gwyl fy mebyd.

Gadel rhyw dinsel o dwyll a'r ennyd  
rhy anodd i'w chrybwyll  
ac yna, mynnaf gannwyll,  
ei chynnau'n bert – a chan bwyll...

**ARON PRITCHARD**



## Barrug ar y ffenestri

Mae'r stafell ddosbarth  
wedi ei haddurno'n ddel,  
coeden yn y cornel;  
anrhegion ffug o focsys gwag,  
a thinsel ar hyd y wal.

Mae'r athrawon wedi chwistrellu  
eira ffug ar y ffenestri,  
gan gylchu'r corneli sgwâr.

Mae'n ddirgelwch i mi ar y pryd,  
ac ar hyd y flynyddoedd i ddod;  
ond yna, un bore oer,  
yn fy nghartref priodasol,  
sbïais ar gorneli'r chwareli petryal,  
a gweld ene batrwm o'r gorffennol.

Heb yr un chwistrelliad nac ymdrech daer,  
fersiwn naturiol o'u addurniad creadigol.  
Gwaries i oriau yn synfyfyrion, wedi fy swyno  
mewn swigen o chwilfrydedd a hiraethu.

Dw i eisiau rhannu hyn hefo fy ngŵr,  
ond sut i esbonio? Ond yna, yn smala  
dywedodd iddo fyntau gael yr un epiffani;

braf felly fu'r ffenomenon cain,  
tros ennyd Nadoligaidd,  
o farrug ar y ffenestri.



## Grugieir du ym Mhen Draw'r Byd\*

Plu du yn sgleinio'n  
enfysaidd hardd  
yn yr haul gaeafol.

Tagellau cochion  
a rhyw agwedd  
o urddas wyladwrus.

Camu'n hyderus i faes yr ymryson;  
troedio'r plu gwyn  
ar bridd caled rhewllyd  
dan draed llydan.

Plygu a thelori,  
cyn codi pen a hisian,  
gan boeri niwl yn ffyrnig ffug  
i'r aer clir oerllyd.

Pwffio cynffonnau  
ffluwchog gwyn —  
tariannau'n dangos  
eu lliwiau.

Chwifio a chwyrlio'n  
fygythiol a cheindeg:  
y sioe orau fydd yn enmill  
y frwydr-ddawns hynafol hon.

Dyma Nadolig delfrydol  
i ddau adarwr brwd.

\*Y dyffryn cul ger Llangollen



## DAU NADOLIG

'Dolig llachar o wario  
A'r tŷ'n glyd ger y tân glo,  
Hwyl a lliw a theulu llon  
A chig gŵydd a chogyddion;  
Dwy sach, dwy hosan annwyl,  
Swyn o hud, Disney o ŵyl!

A Nadolig diolau,  
Y tŷ'n oer, beltiau'n tynhau,  
Y seigiau o'r banciau bwyd,  
Yr ŵydd yn ddim ond breuddwyd;  
Cynsail rhyw fyd Dickensaidd  
Yn bwrw'i hôl fel chwedl braidd!

IFAN PRYS

# NADOLIG YN EWROP, 2022

*gyda'r ynganiad mewn IPA*

Fe ddethlir y Nadolig  
mewn llawer iaith a lle:  
fel *Jul* yn Norwy'r gogledd,  
*Milied* ym Malta'r de,


[ju:l]  
[mi'li:t]

fel *Weihnacht* yr Almaeneg  
a'r *Navidad* yn Sbaen  
(pryd caiff *Rizdvo*'r Wcreineg  
ei dathlu fel o'r blaen?)

[vainaxt]  
[naβi'ðad]  
[rizd'wə]

– heb enwi ond ychydig  
o ieithoedd Ewrop faith.  
Mwynhewch eich gŵyl Nadolig,  
beth bynnag fo eich iaith!

**CHRISTINE TODSEN**



Yr Almaen



Sbaen



Norwy





# ‘AM ENGYL COETH A DOETHION...’

Yn nechrau 2020 (yn union cyn i helynt a chyfnodau clo Covid-19 daro), mentrais ar lunio carol Plygain ar ôl gwasanaeth o'r fath a gynhaliwyd yng nghapel Hermon, Ystradfellte, ddiwedd Ionawr y flwyddyn honno. Hwn oedd y gwasanaeth cyntaf o'i fath i'w gynnal yno ers blynnyddau. Ond o ganlyniad i effeithiau Covid ac ymadawiad dau a fu'n gefn i'r achos am Y Fenni, 'dyw'r capel ddim wedi ail-agor yn gyson ers yr achlysur hwnnw yn 2020. Er nad wyf yn grefyddol fy hun, o gynnwys hon yn rhifyn digidol y Nadolig — gyda digon o ganhwyllau a dail celyn o'i chwmpas — mae'n bosib y gallai ennyn digon o 'wrows' ac 'aahs' tymhorol i gyfiawnhau ei lle!

DAVID LESLIE DAVIES

## GWASANAETH PLYGAIN HERMON

*i Heulwen ac Iwan Roberts, cynheiliaid yr achos yno*

Wel dyma Wyl â'i hwyliau  
Yn glod i'r Meseia'n glau:  
Hen fawl fel gynnau a fu  
O leisiau'n canmol Iesu.

Ategir nwyd proffwydi  
Y ddi Meseia i'w ddy :  
I stabal, nid i balas.  
Nid yn wych ddi, ond yn was.

Lleinw cantorion lloned  
Yn lân y capel i'w led  
Â sain hen garolau'n sôn —  
Deg awr! — am Fab di-goron;

Am engyl coeth a doethion  
Y cenir â difyr dôn,  
Ac am frawd gwerin ddinod  
Ga'dd ar glyw fod Duw yn dod.

Harmoni, wir, yn Hermon  
Er Duw a roddir ar dôn  
Wrth grybwyll 'mysg canhwyllau  
Nefol daith o waith hyd wae.

O moled, ust, pob Cristion  
Enw'r Iawn a geni'r Iôn.  
Caned heb argoel cynnen  
Â mawl i'r Mab, boed Amen!

Plant Capel Hermon,  
Ystradfellte.

## ac yr oedd yn y wlad honno...

a be oedd yno  
oedd hyn:

pafin llithrig  
yn sglein i

gyd, siop arall  
eto newydd gau

a chriw carolwyr  
fel fi'n pesychu

ac, ie, soniais  
i am bafin

llithrig sydd yn  
sglein i gyd?

**DAFYDD JOHN  
PRITCHARD**

## Y Blwch

Wrth godi eto'r caead,  
amdo gwyrdd, rhubanau cochion,  
lliwiau'r *saturnalia*, y Gwyliau;

ein plant a'i dihuna o'i thrwmgwsg  
gyda'u hanrhegion o laeth a siocled,  
gyda'u cariad a'u ffydd.

Cawn ninnau durio haen ar haen,  
a'u dal, fesul un, i fyny wrth y golau,  
eu lliwiau a'u patrymau'n gwawrio –

Pwnsh, yr Ostler, Siwan,  
yn eu mwltai a'u cotiau brith,  
gydag ysgub, ffidil, ffrwyn.

Yna, mae pob cortyn yn tynhau,  
eu cyrff a'u cymalau'n ystwytho,  
yn ymestyn atom yn ein rhaid.

**FRANK OLDING**

# Gofyn diferyn o fir

## EURIG SALISBURY

Pan ddaw criw o garolwyr heibio'r Nadolig hwn, rhowch bunt neu ddwy yn y tun, ar bob cyfri, ond rhowch arheg arall iddyn nhw hefyd: cwrw! Dyna'r hen arfer yng Nghymru, a dyma un arall: noddwch fardd i lunio geiriau i garol newydd sbon. Ganrifoedd yn ôl, nid canu medli o hen ffefrynnau oedd y drefn, ond canu geiriau newydd bob blwyddyn, a gallai'r Nadolig fod yn gyfnod hynod o brysus i fardd.

Y prif waith oedd canu carolau plygain – cerddi'n adrodd hanes bywyd Crist a genid mewn eglwysi ar fore Nadolig o ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen – ond roedd canu carolau yn y drws yn boblogaidd hefyd mewn rhannau o'r gogledd. Ar un olwg, mae i'r carolau Nadolig fwy o apêl heddiw na'r carolau plygain am eu bod, yn un peth, yn llawer byrrach. Fe'u cenid yn yr awyr agored, wedi'r cyfan, ganol gaeaf noethlwm! Ac mae'r elfen ymarferol – ymweld â chymdogion, dathlu'r geni a chyfnewid rhoddion – yn ddrych agos i'r ysbryd cymdogol hael a chroesawgar sy, efallai, wedi dod i nodweddu'r Nadolig modern yn anad dim arall.

Ystyrir Huw Morys (1622–1709) o Bontymeibion yn Nyffryn Ceiriog y mwyaf o feirdd yr ail ganrif ar bymtheg ac, er ei fod yn enwocach fel awdur carolau plygain a charolau haf – math arall o gerdd a genid yn y drws, y tro hwn ar galan Mai – ceir wrth ei enw ddyrnaid o garolau Nadolig.



Plant-Glas Isaf

Cofnodwyd dwy ohonynt mewn llawysgrif bwysig (DD/DM/533/1) a gedwir yn Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru yn Rhuthun, lle ceir hefyd lawer o gerddi eraill gan Huw, a dwy yn ei law ei hun. Lluniwyd y llawysgrif c.1690–5, naill ai ym Mhant-glas Uchaf neu ym Mhant-glas Isaf ym mhlwyf Llangadwaladr ger Llansilin, nid nepell o gartref Huw, a rhaid bod y carolau wedi eu canu dan barwydydd yr ardal honno. Mae Pant-glas Isaf, fel mae'n digwydd, yn gartref heddiw i chwaer fy mam, Iona, arweinydd Côr Llansilin, a saff dweud fod y croeso yno i feirdd a cherddorion mor hael ag erioed.

Mae eleni'n bedwar canmlwyddiant geni Huw, a pha ffordd well i dathlu'r Nadolig na thrwy ailgodi geiriau un o'i garolau Nadolig? Cofnodwyd yr unig gopi hysbys o'r gerdd isod ar ddalen 12' y llawysgrif gan ŵr o'r enw Tomas

Edward, perchennog Pant-glas – does wybod pa un, ar hyn o bryd – ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Cerdd syml yw hi ar fesur y tri thrwriad sengl, a chynganeddion yn frith drwyddi. At y brenin Wiliam III, a ddaeth i rym yn 1689, y cyfeirir yn llinell 14. A'r brif thema? Chwiliwch am y gair allweddol sy i'w weld ym mhob un pennill!

### Geirfa:

*bwrw*, 5, taflu ymaith. *cadw*, 1, dathlu. *cofion'*, 6, cofiont (trydydd person lluosog dibynnol dyfodol 'cofio', gyda grym y ffurf orchymynnol, 'boed iddynt gofio'). *cwmpeini*, 19, tyrfa, llu. *cyfarwydd*, 7, gwybodus, medrus. *cyfion*, 6, cyfiawn, teg. *cylonnog*, 24, calonnog. *cynnal*, 3, rhoi cynhaliaeth, porthi. *dedwydd*, 10, gwynfydedig, ffodus. *diddanydd*, 10, cysurwr (Crist). *ffinio*, 3, dirwyo, cosbi. *gwared*, 11, gwaredu, achub. *gysteg*, 21, gosteg, seibiant, gwrandawriad. *lloned*, 8, llond, mesur llawn. *lluosog*, 23, niferus, amlddoniog. *mwys eirie*, 18, geiriau huawdl. *pryd cinio*, 3, amser cinio. *rhowiog*, 23, rhywiog, o safon uchel, iach. *sawl*, 5, rhai. *yntho*, 8, ynddo.

## CAROL I'R GWYLIE

Y gŵr gostyngedig, i gadw'r Nadolig  
Y nos yn garedig a diddig y dydd,  
Nid ellir eich ffinio er cynnal bryd cinio  
4 Yn llonwch a llunio llawenydd.

Y sawl sydd yn bruddion dan fwrw'u peryglon,  
Cofion' Dduw cyfion, pob Cristion a'i cred;  
Ond chwilio'n gyfarwydd y Testament Newydd,  
8 Cân' yntho lawenydd ei loned.

Penna' llawenydd i'w gofio'n dragowydd  
Oedd eni'n diddanydd yn ddedwydd i ddydd;  
Trwy Grist sydd i'n gwared, ein dyledion a daled  
12 I'n dwyn o law galed y gelyn.

Mae'r byd yn heddychlon heb arswyd gelynyon,  
An brenin yn ffrwythlon, wir ffynnon i'r ffydd;  
Pob Cristion a ddyle roi moliant am wylie,  
16 A chanu ar ei linie o lawenydd.

Y gŵr da'i gynneddfe, chwi a wyddoch a wedde:  
Amal blesere a mwys eirie yma sydd  
I'n harwain yn heini un fath â chwmpieini  
20 O adar y llwyni i'r llawenydd.

Mae yma wraig landeg a'i chroeso'n iach ysteg,  
A chwrrw'n ychwaneg ar redeg a rydd;  
Ffrwyth yr haidd rhowiog a'n gwnaiff yn lluosog  
24 I lunio'n gylonnog lawenydd.

### HUW MORYS



LLYTHYR

## Cronfa Gwobr Llanbryn-Mair

Annwyl Olygydd,


Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cronfa Gwobr Llanbryn-Mair wedi cael y fraint o roi cefnogaeth ariannol i nifer o gyfrolau pwysig. Gellir cyfeirio at *Prydlondeb a Ffyddlondeb* gan Penri Roberts, sy'n dathlu hanes Theatr Ieuentid Maldwyn. Yn gynharach eleni bu i Ysgrifau ar Lân a Hanes Powys gan Enid Pierce Roberts (golygydd Gruffydd Aled Williams) weld golau dydd. Cyfrol arall sydd newydd gael nawdd gan y Pwyllgor yw Seiniwn Hosanna, casgliad o garolau Plygain Cymraeg wedi eu golygu gan Arfon Gwilym a Sioned Webb.

Yr ydym yn awyddus i gefnogi prosiectau eraill. Yn wir, mae gennym ddiddordeb arbennig fel pwyllgor mewn rhoi cefnogaeth ariannol i unrhyw un fyddai'm hoffi llunio cofiant i Mynyddog (Richard Davies 1833-1877), y gŵr o Lanbryn-mair oedd yn ddiddanwr cyhoeddus ac yn arweinydd eisteddfodau a chyngherddau. Ef biau *libreto* yr opera 'Blodwen'. Fo hefyd oedd awdur caneuon poblogaidd fel 'Cartref', 'Pistyll y Llan' a 'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg'.

Os oes gennych ddiddordeb yn y cynllun hwn gellwch gysylltu â fi ar [dafyddmorgan53@gmail.com](mailto:dafyddmorgan53@gmail.com) neu ffônio 07870 996220. Ceir mwy o wybodaeth am Wobr Cronfa Llanbryn-Mair ar wefan Eisteddfod Powys: [www.eisteddfodpowys.co.uk](http://www.eisteddfodpowys.co.uk)

Gwyliau Llawn!

DAFYDD MORGAN LEWIS, Ysgrifennydd  
Pwyllgor Cronfa Gwobr Llanbryn-Mair



## AWST Y TENOR

(i ddathlu hunangofiant Aled Hall)

Y mae gwres dy hanes, denor, ar led  
Rhiw-lwyd a'i hoff dymor;  
o nabod ei lond sguor,  
cyngerdd dy angerdd di-dor  
dry wres Awst hael yn drysor.


JIM PARC NEST

## ARFON WYN

(Ar ôl clywed ei gân 'Cae o Yd' a  
darllen ei lyfr *Cyrraedd yr Harbwr Diogel*)

O olau ei ganeuon – a'u gobaith  
daw ysgubau llawnion;  
os maith yr hwyrnos ym Môn,  
ni dderfydd gwawrddydd Arfon.

JOHN EMYR



Bydd adolygiad gan Rhys Mwyn o'r gyfres 'Atgofion Drwy Ganeuon' yn y *Barddas* nesaf.


# BRETHYN GWLAD

Brodor o odre'r Preselau yw **Eirwyn George**. Magwyd ef ar fferm Tŷ Rhyg Isaf, y tu clytaf i'r *landsker*, ger Twffton. Ac mae'n byw heddiw gyda'i wraig Maureen ryw ddwy filltir i ffwrdd ym Maenclochog. Bu'n ffermio am ddeuddeng mlynedd ac yna bu am flwyddyn yng Ngholeg Harlech. Cafodd radd anrhydedd yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Bu'n athro Cymraeg a Hanes yn Ysgol Uwchradd Arberth ac Ysgol Gyfun y Preseli, ac yn Llyfrgellydd Gweithgareddau yn Sir Benfro am 15 mlynedd hyd ei ymddeoliad. Bu'n gystadleuydd brwd iawn mewn eisteddfodau mawr a bach — yn y chwedegau bu'n rhaid neilltuo stafell yn ei gartref i gadw ei holl gadeiriau! Enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe ym 1982 am ddilyniant o gerddi ac yn Llanelwedd ym 1993 am bryddest 'Llynnoedd'. Cyhoeddwyd honno yn *Llynnoedd a Cherddi Eraill* (Gwasg Gwynedd) ym 1996.

## CAPEL

*(Capel bach ysbyty Llwynhelig lle cynhelir oedfaon ar fore dydd Mawrth)*

Rhyw ddau neu dri â'r galon yn straffaglan,  
Eto, heb ganu'n iach i'w canol oed,  
A dau yn brwydro'n galed i oresgyn  
Y cancer sy'n cordeddu yn eu gwaed.  
Wrth ganllaw'r drws mae gwraig a'i chof yn garbwl,  
Mae rhai'n benisel yn y seddau cefn,  
Bachgen a'i goesau'n gwegian dan ffon fagal,  
A darpar-fam heb ddim i'w ddweud, rhag ofn...  
Cleifion yn troi o encilfeydd y wardiau  
I flasu'r Swper rhwng y muriau plaen,  
Dihangfa o gynefin eu doluriau  
A chwsg anesmwyth y cyffuriau poen.  
Mintai gymysgryw a'u pennau'n plygu i lawr  
Yn ymbil am iachâd y Meddyg Mawr.



Yn 2009 cyhoeddwyd *Cân yr Oerwynt*, cyfrol sy'n tywys y darlennydd ar daith drwy Sir Benfro. A cherddi am hynt a helynt milltir sgwâr y bardd sydd yn y gyfrol newydd hon. 'Rwyf yn credu'n gryf fod lle i'r bardd gwlad o hyd yn y gymuned sydd ohoni heddiw,' meddai. Mae yma hefyd atodiad o ddarnau o ryddiaith; Erthyglau ac ysgrifau yn trafod barddoniaeth neu lwybrau cefn gwlad cynefin yr awdur.

Pris y llyfr yw £7.50 yn y siopau, neu £10 drwy'r post oddi wrth Alun Ifans, Erw Grug, Maenclochog, Clunderwen, SA66 7LB.

Bydd elw'r gwerthiant yn mynd i gronfa Cymdeithas Waldo. Sicciau yn daladwy i 'Cymdeithas Waldo'.

## FFINIAU

Dwy iaith yn ymgodymu ar y *landsker*  
O harbwr Solfach i dre Hendy-gwyn,  
Dwy iaith yn hollti'r tirwedd yn ddau hanner  
Fel neidir yn ymwáu dros bant a bryn.  
Y *down belows* weithiau'n bychanu'r Cymry,  
A'r Cymry'n taro'n ôl, drwy ddŵr a thân!  
Dadleuon di-ben-draw o hyd yn mynnu  
Eu cadw yn ddwy genedl ar wahân.  
Ond heddiw, Lloeger Fechan sy'n dihuo  
O Spittal Cross i bentir *Hakin Close*,  
Yr Heniaith ar dafodau yn blaguro  
Mewn sgwrs ben-ffordd, a dosbarthiadau nos.  
A lle bu rhygnu 'mlaen â hen gwerylon  
Daeth blas ar fyw, a'r ffiniau i gyd yn deilchion.



Eirwyn George

# Anwyddoleb

## ELINOR WYN REYNOLDS

Cyhoeddiadau Barddas, £8.95


### ADOLYGIAD — MEG ELIS

Mae pamffledi barddoniaeth yn grêt. Dw i'n hoffi cerddi ar Instagram, a chyfryngau cymdeithasol eraill, am eu gallu i ymateb yn syth i ryw ddigwyddiad neu'i gilydd. Ac o ran cyfrolau mwy swmpus, ar ôl i feirdd farw, fe fydd rhywun (os nad aeth y bardd druan allan o ffasiwn yn rhy sydyn) yn cyhoeddi'r Casgliad Cyflawn a/neu yn ennill PhD am "astudiaeth dreiddgar" o gynnyrch oes.

Ond beth am y beirdd hynny sydd mor anystyrion â dal i fyw? Ac yn waeth na hynny, dal i fod yn gynhyrchiol? Adolygu pob cyfrol fel y daw, ac olrhain hynt neu dwf barddol y prydydd dan sylw fesul cyhoeddiad fyddai'r ffordd saffaf, debyg. Oes, mae yna berygl o anghysondeb yn y ffordd honno, ar ran y bardd a'r adolygydd, ond pryd y bu hynny'n rhwystr erioed i na bardd na beirniad?

Ac yna, mi gewch gyfrol fel hon. "Ei chyfrol lawn gyntaf o farddoniaeth", medd y broliant, a "llawn" yw'r gair hollol briodol. Llyfr boddhaol ei faint, digon gwir, ond gobeithio nad ydym bellach yn mesur nac yn pwyso gwaith mewn dull mor llythrennol. Llawnder a chyflawnder sydd yma - rydw i'n oedi cyn ei alw'n waith oes, rhag sarhau'r awdur a beirdd hyn na hi sy'n meddu ar hen ddigon o rym creadigol i bara am flynyddoedd eto.

Ond yn bendant mae yma daith. Cawn blentyndod ac ieuencid y cerddi cyntaf, ymlaen at aeddfedrwydd. Ond peidiwch, er hynny, â thybio mai'r ffug-ddiniweidrwydd fu'n chwiw ffasiynol am gyfnod a welwn yn y gerdd gyntaf un *Ma Mam yn dweud*. Ydi, mae'n dechrau'n ddigon confensiynol:



Ma Mam yn dweud 'mod i'n ferch fach bert  
Pan fo 'ngwallt mewn bwshys...

Ond y diwedd glo sy'n taro'n driw, ac yn wir yn  
gosod naws y gyfrol drwyddi draw:

Ond wŷr Mam ddim am fy nghynllunio  
I fyw'r bywyd sengl  
A bod yn bennaeth ar gwmni gwerth  
miliyne.

Buan iawn y mae'r plentyn yn prifio, ac y  
mae asbri ieuencid yn sboncio drwy gerddi fel  
'Gwallt', 'Triongl Tragwyddol', a'r hyfryd 'Dau ar  
feic', sy'n dal i'r dim y wefr a'r cyffro hwnnw:

Ni'n dau'n gwibio drwy'r goedwig  
Fel arwyr drwy ein stori fawr  
Yn gweld popeth sydd i'w weld

Ar hyd y llwybr troellog  
Tua rhywle  
Lle mae'r haul yn llachar.

Y mae yma drefn a chynnydd yn y gyfrol, yn yr ystyr o symud trwy fywyd, ond ar yr un pryd, does dim ymdeimlad o fod yn or-gaeth i un thema. Peth fel yna ydi bywyd. Mae 'cynllunio' y gerdd gyntaf yn troi'n sydyn i fod yn 'Wy'n rhy hen i hyn', ac os am wybod tynged y 'bwshys', darllenwch y campwaith 'Torri calon mewn salon'. Un gerdd yw hon ymhlith llawer yn *Anwyddoleb* sydd yn dangos meistrolaeth Elinor Wyn Reynolds ar wahanol gyweiriau iaith.

Ie — iaith. Mae'r atyniad at 'Gyfyrrddin' a thafodiaith yr ardal yn amlwg, ac yn cyfoethogi'r gyfrol, gan roi iddi ei naws arbennig. Ond y mae yma hefyd ddarnau sy'n orlwythog o Saesneg. Ydyn nhw yn ennill eu lle? Gwyddom, o'r diolchiadau yn y cefn, fod rhai o'r cerddi wedi eu creu i'w clywed, eu hadrodd ar goedd neu ar y tonfeddi: dim byd o'i le ar hynny. Maen nhw'n siŵr o ddenu laff — a dyna'r pwynt, ontefe? Gellid dadlau eu bod yn rhoi peth anwastadrwydd i'r gyfrol, ond wedi'r cyfan, peth anwastad yw bywyd, ac y mae'r bardd yn ddigon gonest i wynebu hynny.

Dichon fod modd maddau unrhyw anwastadrwydd neu ganiatáu i ambell gerdd dalcen slip lithro i mewn i gyfrol sy'n cynnwys uchelfannau fel 'Y goeden bants', gyda'i pharodi ysgafn a'i doniolwch siarp, neu'r rhyfeddol 'Celfi al ffresgo', gyda'i gweledigaeth swreal (ac ydw, rydw i'n defnyddio'r gair hwnnw yn ei wir ystyr, nid fel gair cyfystyr ag 'afreal'). Bydd rhai o ddelweddau'r gerdd hon yn aros yn hir yn y cof:

...popty unig i'w weld  
yn stelcian ar gornel stryd yn fud,  
yn falch i fod ymhell o wres y gegin,  
ac ar draws yr heol bydd lamp yn pwyso ar  
bostyn...

Os oes yma gerddi mentrus a doniol, mae yma hefyd ddwystr. A yw'n arwyddocaol, tybed, mai rhan olaf y llyfr sy'n cynnwys myfyrdod 'Am fod yn rhaid i ni', a thristwch 'Gadael y parti'? Arwyddocaol, a bwriadol hefyd, mi dybiaf. Wedi'r cyfan, gwyddom oll beth fydd diwedd y daith, ac y mae Elinor Wyn Reynolds yn mynegi hyn ar ei fwyaf ingol yn 'Cot Mam':

Towlais bip i'r drych a gweld  
Ie, mwya'r syndod,  
Bod Mam yn dynn amdana  
Fel cot gyfarwydd.

Dyna grisialu profiad a ddaeth i lawer oedolyn: gweld yn y drych nad ydi'r plentyn y tybiasoch chi fyddai'n sbio'n ôl arnoch yn bod bellach. Ac y mae hynny'n arwydd o fardd sy'n gallu edrych yn ôl, a hefyd wynebu'r dyfodol, gan wybod yn union lle mae hi'n mynd.

# Tosturi

## MENNA ELFYN

Cyhoeddiadau Barddas, £9.95

ADOLYGIAD — ELINOR WYN REYNOLDS

Weithiau, mae *angen* barddoniaeth arnom ni. Weithiau, mae angen barddoniaeth ar y byd. Mae'n debyg ein bod ni yn y fath amser ar hyn o bryd. Yn dilyn y cyfnod clo a phob dim yn ymddangos â'i ben i waered, mae angen barddoniaeth yn dost arnom. Barddoniaeth fel *panacea* i bob poen. Trafodwch!

Eleni, cyhoeddwyd cyfrol farddoniaeth ddiweddaraf Menna Elfyn, *Tosturi* a'r dyddiau hyn y mae gwir angen am damed o dosturi. Dyma bymthegfed cyfrol Menna, mae'n anhygoel meddwl fod hynny'n bosibl, y fath ddyfalbarhad, y fath dân, y fath ymroddiad at grefft ond ddaw hynny ddim ar draul yr awen chwaith oherwydd, mi gredaf bod rhai o gerddi gorau eto Menna yn y gyfrol hon. Y mae Menna'n feistr ar ei chrefft yn y gyfrol hon, yn ddiarnheul.

Dechreuodd Menna ysgrifennu 'nôl yn y chwedegau a'r saithdegau am iddi deimlo bod yn rhaid iddi, bod angen clywed lleisiau menywod a hefyd am fod angen i bethau newid. Mae hi'n dal i ysgrifennu am fod yr un angen hwnnw'n parhau – dyw pethau ddim wedi newid, sy'n beth ysgytwol o siomedig i'w sylweddoli. Yn wir, mae'r gyfrol yn cloi gyda dyfyniad, 'Dead women don't make the news nowadays.' A dyna ni. Y mae menywod yn dal i fod yn eilradd, fe wyddom hynny o'r gorau, oherwydd mae'r batriarchaeth yn para i sefyll ar eu corn gyddfau. Ond y mae cyfrol arbennig Menna'n canu'n uchel i'r 52% o'r boblogaeth ac fe ddylai'r 48% arall wrando



ar ba mor swynol (a sobreiddiol) yw'r canu hwnnw.

A dweud y gwir, mae'r gadwyn o gerddi o dan y teitl 'Tosturi' yn gipddarluniau crisial clir o sut beth hyw hi i fod yn fenyw dros gyfnodau gwahanol ei bywyd – y ffordd y mae menywod yn dysgu gwybod eu lle, yn dysgu sut i ymddwyn rhag tynnu sylw neu gorddi ac yna ar ddiwedd y gadwyn yn myfyrio ar ffawd erchyll Sarah Everard yn wyneb y grym didostur gormesol gwrywaidd, yr hyn sy'n para i frw'i gysgod dros y 52%. Dyw pethau ddim wedi newid, mae angen lleisiau menywod yn fwy nag erieod. Ac oes, mae angen llais Menna arnom ni, yn dlawd.

Ceir cerddi i fenywod o bob cefndir yn y gyfrol; rhai adnabyddus fel Catrin Glyndŵr (sy'n eurwallt ar y clawr yn narlun trawiadol yr artist Meinir Mathias), ei mam Marged Glyndŵr, y Dywysoges Gwenllïan, sy'n rhoi lle a llwyfan iddyn nhw, y menywod hynny a ddistewyd yn eu hamserau hwy, a ddaeth yn fwy mud fyth dros dreigl y canrifoedd, a'r rhai yr ydym ni'n aml yn eu beichio â'n dyheadau a'n meddyliau ninnau.

Ond i fi, y cerddi i'r menywod cyffredin sydd wedi aros gyda fi ac sy'n dal i chwarae drwy fy mhen i ar brydiau. Fel y gerdd i'r fenyw lanhau yn yr Amgueddfa Genedlaethol, yn wir fe snortiais wrth ddarllen y gerdd 'Glanhawraig yn yr Amgueddfa Genedlaethol' a'i sgwrs am ddwstio cerflun y gusan gan Rodin, ac yn ei ffordd daclus a chwmws mae'r lanhawraig deidihon yn sôn am 'dwtio dyn yn ei ddeheubarth!' Wel dyna fi'n dysgu enw newydd am bechingalws. Ffolais hefyd ar y gerdd i'r fenyw sy'n gwerthu cocos o ddrws i ddrws 'Cerdd gocos' a Menna'n dala'n union flas y cyfnod, yr heli a'r cocs.

Daw'r teulu'n amlwg yn *Tosturi*. Erbyn cyhoeddi'r gyfrol hon, bu farw Siân ei chwaer ac yna'i brawd Geraint, a thrwy ei cholled profodd Menna, y chwaer, ergydion personol sy'n gweithio'u ffordd i'r wyneb yn y cerddi, yn wir mae'r cerddi yn y gyfrol sydd i'r ddau annwyl hyn yn dyst i'r cwlwm perthyn, y cariad a'r chwerthin fu (ac sydd) rhwng y tri. Ac yn sydyn, o ganol y tudalennau mae Menna'n ymddangos, yn swil weithiau, fel chwaer fach i'r ddau yma. O wyllo'i brawd yn dringo'r goeden ellyg yng nghartref eu mebyd i hoffter ysol ei chwaer o lyfrau ac arogl ei phersawr hi. Mae'r gerdd 'Anadl einioes' yn arbennig o ysgytwol,

mae'n ein harwain i fod yno yng nghwmni Siân, ei chwaer, yn ystod ei dyddiau a'i horiau olaf yn yr ysbyty.

Y mae rhywbeth braf iawn mewn gweld Menna yng nghyd-destun ei theulu yn y casgliad ardderchog hwn. Yn wir, mae ei mam a'i thad yn ymrithio o'r gorffennol i fod yn bobl real, cynnes a chyflawn yma, ac atgofion plentynod yn britho'r gyfrol; straeon teuluol, jôcs ieithyddol, doniolwch a phethau mwy difrifol, pob math o feini cyffwrdd cyffredin y math sy'n perthyn i bob teulu – mae deall ac adnabod hynny wrth ddarllen yn beth ardderchog, oherwydd y mae gennym ni oll ein straeon. Y mae lle hefyd i'w phlant, ac i'r wyrion a'r wyresau wrth y bwrdd eang, croesawus hwn.

Cyfrol feddylgar, ddoniol, dyner a chryf yw *Tosturi*, sy'n dangos y profiad benywaidd fel un arwrol, ble mae menyw'n arwr ei hanes yn ei hunan yn hytrach nag yn gynheiliad neu *bit-player* yn stori rhyw ddyn neu'i gilydd. Y mae gwir angen ar i fenywod berchnogi eu hanesion, eu gwisgo'n hyderus a dangos i'r byd eu bod nhwythau'n bodoli hefyd a bod hynny'n beth llawn mor ddilys – hyd yn oed yn y dyddiau hyn, y dyddiau y meddylion ni'n sownd y byddai'r brwydrau wedi'u hennill a phob anghyfartaledd wedi'u hunioni. Y mae Menna Elfyn yn ei chyfrol *Tosturi* yn dangos i bawb sut mae gwneud; er lles menywod, er lles dynion, er lles y ddynoliaeth.

# Y Lôn Hir Iawn


**OSIAN WYN OWEN**

Cyhoeddiadau Barddas, £5.95

ADOLYGIAD — ANNES GLYNN

Dydi hi ddim yn gyfrinach fod ein Prifardd cyfoes mwyaf dylanwadol o bosib, y diweddar Gerallt Lloyd Owen, wedi 'difaru cyhoeddi ei gyfrol gyntaf *Ugain Oed a'i Ganiadau* yn 1966 ac yntau ond yn ddwy ar hugain oed. Ffrwyth ei waith yn ei ardegau oedd nifer fawr o'r cerddi hynny a'r bardd, mae'n debyg, o edrych yn ôl ar hyd llwybr ei yrfa, yn ystyried y dylai fod wedi pwylo cyn gollwng ambell gerdd o'i law. Yn ddiweddarach yn ei fywyd bu'n enwog o gyndyn o ollwng cerddi o'i afael i'w cyhoeddi nes ei fod yn gwbl fodlon na allai loywi dim mwy arnyn nhw.

Os mai bardd yn ei ugeiniau canol yw'r diweddaraf i weld cyhoeddi ei waith yng nghyfres 'Tonfedd Heddiw', Cyhoeddiadau Barddas, mae Osian Wyn Owen yn ddigon o hen ben i gydnabod mai dechrau ar ei daith farddol y mae o ac y gall y daith honno fod yn 'lôn hir iawn'. Yn wir, breuder a chryfder cerddi ieuencid fel ei gilydd yw testun cerdd agoriadol y gyfrol sef 'Efallai'. Ynddi, mae'r bardd yn myfyrio tybed ai eu mwytho'n dyner oherwydd dwyster y teimladau sydd ynddynt a wna ymhen amser neu ai eu rhwygo 'yn blu mân a phoeri/ar eiriau sy'n methu' fydd ei ymateb? Waeth drwy ba sbectol y bydd Osian yn edrych arnyn nhw ymhen blynnyddoedd, fe fentrodd roi dau ddwsin o'i gerddi ar glawr eleni, a diolch am hynny. Mae *Y Lôn Hir Iawn* yn cynnwys cerddi caeth a rhydd sy'n cyffwrdd yn dyner ac yn peri gwayw hefyd.



Nid bardd y campau geiriol ylwch-chi-fi, y cleciadau clyfar a'r trawiadau trapislyd o gymhleth mo Osian a chawn gadarnhad o hynny gan y bardd ei hun yn y cywydd tafod yn y boch 'Meionês': 'Iwsio'i awen wna'r show off / i roi hwb i'w arwyr hoff... Ond fi? Nid yw fy awen / na'm hawdl, na'r geiriau'n fy mhen / fesul lein yn ymgreinio / i VIP nac i'w heip o.' Ffrwyth myfyrio tawel, cynnil yw'r rhan fwyaf o'i gerddi, ac y mae'r gerdd rydd 'Eog' yn enghraifft dda o'r ddawn honno. Cerdd yw hi er cof am Alun, cefnder y bardd, fu farw'n annhymig o ganlyniad i fodd mewn afon wrth ei waith fel peiriannydd *telecom*: 'Eog o hogyn. / Yn dy gôt *high-vis* / yn edefyn disglair o arian / yn gweu / drwy ddŵr mwll bywyd.' A thrawiadol yw'r darlun o Afon Anafon, ger

Abergwyngregyn, yn 'hen ddyn blin... sy'n rhegi ar blant / ac yn dwyn eu peli nhw, / yn eu llyncu i'w lif lliw te tramp.' Hyfryd o synhwyrus yw ei ddisgrifiad o blentyn bach dyflwydd yn y gerdd 'Tamad arall': 'byddaf yn arogl / ogla llaeth enwyn dy ben, / ac yn mwytho / malws melys dy groen...' Mae'r thema o fod eisiau dal yn dynn yn niniweidrydd profiadau plentyn yn gyffredin i'r gerdd hon a 'Beic', y gerdd a enillodd brif wobwr farddoniaeth Eisteddfod-T 2020, yn ogystal â'r gerdd 'Commis Coch' lle mae'n sôn am 'stori wrach' y byddai ei dad yn arfer ei hadrodd am y pentref yn y canolbarth wrth deithio i lawr i dde Cymru, yn y dechreuodd ei chredu: 'Nes imi weld rhyw gysgod yn yr hwyr / a fynnodd chwalu hud y stori'n llwyr.'

Mae Osian yn fardd sy'n mwynhau hwyl wrth gyfansoddi hefyd, fel yn 'Cywydd Cerdyn Post' a'r englyn i Nico ei gi ond yn y cerddi dwysach y gwelwn ei gryfder yn ddi-os. Gwnaeth ei gywydd 'Amlen' a'i ailadrodd a'i foelni effeithiol gryn argraff arna'i.

Yn anorod, mae mwy nag un gerdd yma sy'n deillio o gyfnod Osian yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor; dyna wraidd y dilyniant 'Bannau' a enillodd iddo Gadair Eisteddfod yr Urdd yn 2018. Ond tra bod y cerddi hynny yn f'atgoffa ormod o gerddi tebyg gan eraill a aeth o'i flaen, mae'r gerdd '8 Ffordd y Tywysog' yn gafael yn dynnach a'r bardd bellach ar ddiwedd blwyddyn mewn tŷ yn ym Mangor Uchaf. 'Cilffordd wledig, braf' oedd hon, meddai. 'Lôn i'w theithio'n hamddenol / yn fy amser fy hun / am nad oeddwn i'n barod, / eto, / i deithio traffordd brysur bywyd.' Bellach, ac yntau'n teimlo ei fod ar groesffordd arwyddocaol, mae'n diolch am y profiad o'r 'Lôn gefn dawel rhwng BA / (byth adra) / a BG / (byw go iawn).'

Pluen dyner, nid gordd o gyfrol, yw hon ond nid yw hynny'n gyfystyr â dweud ei bod hi'n ddisylwedd chwaith. Mae Osian Wyn Owen yn gwybod yn union beth yw gwerth a nerth geiriau, a'i daith i ddod o hyd i'r union eiriau hynny er mwyn mynegi ei brofiad yw testun y gerdd sy'n rhoi i'r gyfrol ei theitl. Â'r rhain yn ei sgrepan, mae 'na lôn eang, ddifyr yn ymagor o'i flaen.



# Ar nos Fercher arferol...

**TUDUR DYLAN JONES, MERERID HOPWOOD,  
ALED EVANS, GERAINT ROBERTS**

Ysgol Farddol Caerfyrddin, £5

ADOLYGIAD — DAFYDD JOHN PRITCHARD

Waeth i mi gyfaddef yn syth nad 'adolygiad' go iawn fydd hwn, ond, yn hytrach, gwerthfawrogiad o waith caled, ymroddiad, dyfalbarhad, athrylith a hwyl nifer o unigolion a chymuned gyfan sydd wedi creu a chynnal rhywbeth arbennig iawn.

Ar ryw noson ym mis Medi 1992 y dechreuodd y cyfan, pan alwodd Geraint Roberts heibio i gartref Tudur Dylan a'i holi a fyddai'n fodlon rhoi cyfres o wersi i ddysgu'r gynghanedd i griw bach oedd yn cyfarfod yn yr Hydd a'r Fesant ym mhentref Pont-ar-sais. Cytunodd Dylan, ac mae'r gweddill yn... destun rhyfeddod. A hynny, yn syml iawn, oedd hanes sefydlu Y Dosbarth a ddaeth ymhen amser yn Ysgol Farddol Caerfyrddin.

Go brin y gallai Dylan na Geraint ddychmygu ar y pryd sut y byddai pethau'n datblygu, na chwaith fod wedi breuddwydio y byddai'r 'fenter' wedi dwyn cymaint o ffrwyth. Go brin y byddai'r naill na'r llall wedi gallu rhagweld y byddai'r Dosbarth cychwynnol hwnnw wedi profi cymaint o lwyddiant, na, chwaith, mae'n siŵr gen i, y byddai o yma o hyd ac yn parhau i fod mor greadigol a ffyniannus yng nghorff yr Ysgol Farddol.


Rwy'n cofio'n dda o hyd sut y bu i mi wirionio yn yr ysgol wrth inni astuio *Y Traddodiad Barddol* gan Gwyn Thomas. Traddodiad ffurfiol, proffesiynol i bob pwrpas oedd

hwnnw, wrth gwrs. A dyma ni, ganrifoedd yn ddiweddarach, yn gweld pennod newydd, arall yn y traddodiad hwnnw. Yn y bennod hon, fe brofw'n agwedd broffesiynol a chwbl o ddifri athrawon a disgyblion, ond mewn cyd-destun cymdeithasol, llawn hwyl hefyd. Bu'r gwaith a'r ymdrech yn bwysig, gan addysgu degau i gynganeddu a barddoni'n llwyddiannus, ac i fwynhau gwneud hynny hefyd ac, yn wir, i ddangos fod y busnes cynganeddu yma yn gallu bod yn hwyl hefyd.

Mae'n beth peryglus i adolygydd, hefyd, ddechrau enwi pobl, gan fod hynny'n golygu peidio â chrybwyll eraill sy'n haeddu'r un fath o gydnabyddiaeth a sylw. Ond, mae'n deg dweud fod y pedwar sydd wedi llunio penodau hanes yr Ysgol i'r gyfrol hon yn cynrychioli arweinwyr yr Ysgol dros y blynyddoedd.

Y mae'r pedwar yn sôn am bedair elfen sy'n nodweddu cymdeithas yr Ysgol a'r rhesymau dros ei llwyddiant: y mae Tudur Dylan yn rhoi inni hanes sefydlu'r Dosbarth a sut y datblygodd hwnnw; cawn hanes teithiau'r Ysgol gan Mererid Hopwood; gan Aled Evans cawn glywed am eisteddfod frwd a chystadleuol yr Ysgol; a Geraint Roberts sy'n sôn am nifer o dîmau Talwrn sydd wedi codi o'r Ysgol a'r wedd gymdeithasol ehangach sy'n bwysig iddi.

Fel y dywedais i, doeddwn i ddim am ysgrifennu adolygiad 'arferol' y tro hwn, dathlu'r Ysgol yw'r peth pwysicaf – a diolch amdani. Ond, mae'n deg dweud fod y gyfrol yn eithriadol o ddifyr a bu'n bleser ei darllen. Fel fi, byddwch yn rhyfeddu o weld cymaint o enwau adnabyddus iawn ym myd barddoniaeth sydd wedi bod drwyddi, ac wedi cyfrannu'n helaeth



iawn tuag ati hi wedyn. Y mae'r gynghanedd (a barddoniaeth Gymraeg) yn sefyll ar dir cadarnach o lawer heddiw oherwydd gwaith Ysgol Farddol Caerfyrddin.

Mae'n wych o beth hefyd fod cystal oriel o ffotograffau sy'n cofnodi hynt a helynt, llwyddiannau a thristwch y deng mlynedd ar hugain ar gael yn y gyfrol. Cawn ein hatgoffa fel cenedl ein bod wedi colli beirdd ac awduron oedd yn gyfarwydd i bob un ohonom, ar hyd y daith, gan ein hatgoffa o'u cysylltiad â'r Ysgol Farddol, a'u dyled iddi. Y mae'r lluniau hyn yn harddu'r gyfrol. Byddwn yn eich hannog i brynu'r gyfrol hon!

Pen-blwydd hapus, felly, i Ysgol Farddol Caerfyrddin; llongyfarchiadau ac Ymlaen!

# ENGLYNIION NADOLIG

Dangoswyd yr englyniion hyn (yn ddiennw) i JIM PARC NEST a gofyn iddo ddewis ei ffefryn. Y wobwr ydi gwên ganddo!

## NEWYDDION DA!

Mae hi'n oer, ac mae'n eira — am unwaith,  
ac mi wn, er gwaetha'  
bod dan warchae y gaea',  
hwn yw dydd Newyddion Da.

DAFYDD JOHN PRITCHARD

## GWYN EI BYD

A'r criu iach yn dod o'r crud, — bu Mair  
Fel pob mam am ennyd  
Awr, cyn i Dduw ymyrryd  
Â'i hogyn bach. Gwyn ei byd...

2022

Daeth oerfel gyda'i therfyn — i galon  
Rhai â'u gŵyl ar gychwyn;  
Bochgoch yr aeth y bechgyn  
A llwyd y daethant o'r llyn.

TOMOS DAFYDD

## NADOLIG 2022

Trown i gyd bob cartre'n gain i'n dallu,  
â'r byd oll mor filain,  
â thinsel rhag gweld celain,  
tinsel rhag rhyfel Wcraïn.

ALAN LLWYD

## ANNWYL SIÔN CORN...

Yn fy hosan mi f'asai awr o hedd  
yn wir rodd; fe'm codai  
y tu hwnt i chwalfa'n tai'n  
awyr dyner odana'i.

ANNES GLYN

## NADOLIG EFA

*Mae gennyf wyres naw mis oed, Efa,  
sy'n byw yng Nghaerdydd ac yn hanner  
Iseldires. Mae Iseldirwyr yn dathlu  
Sinterklaas ar ddechrau Rhagfyr ac yna'r  
Nadolig ar y 25ain.*

Mae'n goch ac oren eleni, dau Siôn  
A dwy sach i'th lonni,  
Dau air sy'n llawn dwy stori,  
Dwy wyl yw dy Ragfyr di.

LLŶR JAMES

## HEROD

Y mae Herod yn rhodio — yn y byd  
Heb 'run bedd i'w rwystro  
A phob dydd, a'n ffydd ar ffo,  
Hyn a welaf dan wylo.

DEIO SIÔN


## YR YCH\*

Heb warafun na breffu, aberthodd  
Ei borthiant yn wely  
Yn y côr i'r Baban cu;  
Rhoes ei breseb i'r Iesu.


RHYS DAFIS

\*Enillydd gwên Jim!

**b** Mae gwledd o lyfrau ar gael y Nadolig hwn gan Gyhoeddiadau Barddas!



Y Lôn Hir Iawn  
£9.95




Anwyddoldeb  
£8.95




Cariad  
£9.95


Allan  
mis  
Ionawr



Nadolig  
£8.95



Seiri'r Canrifoedd:  
Cerddi T. Gwynn Jones  
£9.95



Llyfr Bach y Tŷ Bach  
£9.95



Cynghanedd i Blant  
£9.95

**Nadolig  
Llawen!**




Chwilio am y calennig  
perffaith?

Tanysgrifiwch  
i **BARDDAS!**

4 cylchgrawn y flwyddyn - £25

Cysylltwch am fwy o wybodaeth:  
[alawgriffiths@barddas.cymru](mailto:alawgriffiths@barddas.cymru)



**GWYLIAU LLAWEN  
I BAWB!**